Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981
Cais i gofrestru llwybr cyhoeddus ar y Map a Datganiad Swyddogol, Treborth, Cymuned Pentir.

| | |
|---|---|
| **DYDDIAD** | **19/05/2025** |
| **TEITL** | Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981<br>Cais i gofrestru llwybr cyhoeddus ar y Map a Datganiad Swyddogol yng Nghymuned Pentir, Gwynedd. |
| **DIBEN** | Ystyried a ddylai'r Awdurdod lunio Gorchymyn Addasu Map Swyddogol. |
| **ARGYMHELLIAD** | Y dylai Cyngor Gwynedd (y Cyngor) lunio Gorchymyn Addasu dan Adran 53(3)(c)(i), Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 er mwyn ychwanegu'r llwybr a ddangosir mewn coch ar y cynllun a ddarperir yn Atodiad 1 fel llwybr cyhoeddus ar y Map a'r Datganiad Swyddogol. |

# 1. Cyflwyniad

1.1 Cyfeiria'r adroddiad hwn at gais a gyflwynwyd i'r Cyngor hwn dan adran 53 Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981 ("WCA 1981") i gofrestru llwybr cyhoeddus yng Nghymuned Pentir ar y Map a'r Datganiad Diffiniol.

1.2 Gwneir y cais ar y sail fod y cyhoedd wedi cerdded ar y llwybr hwn yn ddirwystr ac yn gyson fel petai ganddynt yr hawl (hynny yw, heb ganiatâd y tirfeddiannwr, heb fod yn gyfrinachol a heb rym) dros gyfnod o ugain mlynedd neu fwy.

# 2. Cefndir

2.1 Ym mis Awst 2021, derbyniwyd cais gyda thystiolaeth gefnogol gan Gyngor Cymuned Pentir, dan WCA 1981 i gofrestru llwybr cyhoeddus yn Nhreborth, Bangor ar y Map a'r Datganiad Diffiniol.

2.2 Dengys y llwybr troed a hawlir, fel y dengys ar gynllun y cais, rhwng pwyntiau A ac E mewn coch ar y cynllun a ddarperir yn Atodiad 1.

2.3 Mae'r llwybr yn dechrau o bwynt A ar ei gyffordd â Llwybr Cyhoeddus Rhif 12 yng Nghymuned Pentir ac yn dilyn ffordd tarmac i gyfeiriad gogleddol i bwynt B gyferbyn â Chlwb Pêl-droed Penrhosgarnedd. O bwynt B, mae’r llwybr yn parhau ar hyd y ffordd tarmac i gyfeiriad gogleddol, gan fynd heibio Neuadd Treborth a thai eraill ar y dde tuag at y bont rheilffordd ym mhwynt C. O bwynt C, mae'r llwybr yn dilyn y ffordd tarmac sy'n mynd heibio'r mynediad i'r Trac Athletau ar y chwith i bwynt D ger Rivendell. O bwynt D, mae’r llwybr yn parhau i gyfeiriad dwyreiniol ar hyd y ffordd tarmac drwy Erddi Botaneg Treborth i bwynt E, ar ei gyffordd â Llwybr Cyhoeddus Rhif 22 yng Nghymuned Pentir.

2.4 Ar ôl ystyried yr holl dystiolaeth berthnasol sydd ar gael ac os, ar gydbwysedd tebygolrwydd (a golyga hynny, ei fod yn fwy tebygol na pheidio) yr hawlir yn rhesymol fod yr hawliau llwybr cyhoeddus yn bodoli, bydd gofyn i'r Awdurdod wneud Gorchymyn Addasu Map Diffiniol (DMMO) i gofrestru'r llwybr ar y Map a'r Datganiad Diffiniol (DMS).

# 3. Fframwaith Deddfwriaethol

3.1 Mae Rhan 53(2) WCA 1981 yn darllen fel a ganlyn,

‘’As regards every definitive map and statement, the surveying authority shall-

(a)…

(b) as from that date [that is the commencement date], keep the map and statement under continuous review and as soon as reasonably practicable after the occurrence on or after that date, of any of those events, by order make such modifications to the map and statement as appear to them to be requisite in consequence of the occurrence of that event.

(3) The events referred to in subsection (2) are as follows—

(a)…

(b)…

(c) the discovery by the authority of evidence which (when considered with all other relevant evidence available to them) shows—

(i) that a right of way which is not shown in the map and statement subsists or is reasonably alleged to subsist over land in the area to which the map relates, being a right of way such that the land over which the right subsists is a public path...''

Datgan Adran 31(1) Deddf Priffyrdd 1980:-

"Where a way…. has been actually enjoyed by the public as of right and without interruption for a full period of 20 years, the way is to be deemed to have been dedicated as a highway unless there is sufficient evidence that there was no intention during that period to dedicate it."

Noda Adran 31(2):

'The period of 20 years......is to be calculated retrospectively from the date when the right of the public to use the way is brought into question.....

## 4. Cyfraith Gyffredin

4.1 Dan Gyfraith Gyffredin, gellir creu hawl tramwy trwy ymrwymo a derbyn yn glir. Cyfrifoldeb yr hawliwr yw profi i ddangos fod y perchennog tir, y mae'n rhaid iddo fod â'r gallu i neilltuo, wedi bwriadu neilltuo hawl tramwy cyhoeddus; neu fod y cyhoedd wedi ei ddefnyddio cyhyd y gellid casglu hynny, neu fod y perchennog tir yn ymwybodol o ddefnydd y cyhoedd ac wedi cydsynio i hynny. Dylai'r cyhoedd ddefnyddio'r llwybr a hawlir fel pe bai'r hawl ganddynt, fodd bynnag, nid oes cyfnod penodol o ddefnydd, ac yn ddibynnol ar ffeithiau'r achos, gall amrywio o ychydig flynyddoedd i sawl degawd. Nid oes dyddiad penodol i'w ddefnyddio ar gyfer mesur defnydd yn y gorffennol.

4.2 Mae Adran 31 Deddf Priffyrdd 1980 yn symleiddio'r rheol Cyfraith Gyffredin trwy ddatgan fod rhagdybiaethau penodol yn trechu oni bai y gellir profi i'r gwrthwyneb.

## 5. Materion sy'n Gyfreithiol Amherthnasol

5.1 Ni all yr Awdurdod ystyried ffactorau megis diogelwch y cyhoedd, diogelwch, dymunolrwydd, addasrwydd neu angen - er eu bod yn bryderon gwirioneddol - wrth wneud penderfyniad. Er enghraifft, efallai y bydd rhai pryderon gwirioneddol am y gwrthdaro posib rhwng mynediad y cyhoedd a rheolaeth tir; fodd bynnag, ni ellir ystyried y pryderon hyn wrth benderfynu ar gais i addasu'r Map a Datganiad Diffiniol. Mae'r broses DMMO yn ymwneud â phenderfynu a oes hawliau tramwy cyhoeddus mewn gwirionedd yn bodoli ai peidio.

## 6. Polisi Cyngor Gwynedd

6.1 Deddf Cydraddoldeb 2010 - Mae'r Cyngor yn ddarostyngedig i ddyletswyddau sector cyhoeddus dan Ddeddf Cydraddoldeb 2010 (gan gynnwys dyletswyddau sector cyhoeddus Cymreig). Yn unol â'r dyletswyddau cyfreithiol hyn wrth wneud penderfyniadau, rhaid i Gynghorau roi sylw dyladwy i'r angen i (1) ddileu gwahaniaethu anghyfreithlon, (2) hyrwyddo cyfle cyfartal ac (3) annog perthnasoedd da ar sail y nodweddion gwarchodedig. A rhoi sylw dyledus i'r ddyletswydd economaidd-gymdeithasol dan Adran 1 y Ddeddf. Gofynnir i'r pwyllgor roi sylw i'w ganfyddiadau wrth wneud penderfyniad.

6.2 Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 - Mae Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn ymwneud â gwella llesiant cymdeithasol, economaidd, amgylcheddol a diwylliannol Cymru. Mae'r ddeddf yn gosod dyletswydd llesiant ar gyrff

cyhoeddus a'i nod yw cyflawni'r saith amcan llesiant cenedlaethol sef Cymru lewyrchus, Cymru gydnerth, Cymru iachach, Cymru sy'n fwy cyfartal, Cymru o gymunedau cydlynus, Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu a Chymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang. Mae'r argymhelliad wedi'i baratoi drwy roi sylw i ofynion y Ddeddf ac ymdrin â'r pum ffordd o weithio.

6.3 Safonau'r Gymraeg (Adran 44 Mesur y Gymraeg (Cymru) 2011). Mae'n ofynnol i'r Cyngor ystyried effaith unrhyw newid i bolisi neu weithdrefn (neu effaith creu polisi neu weithdrefn newydd) ar gyfleoedd i bobl ddefnyddio'r Gymraeg ac i sicrhau na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

6.4 Dyletswydd Economaidd-gymdeithasol - Mae Cymru hefyd bellach wedi gweithredu'r ddyletswydd hon, sy'n rhan o Ddeddf Cydraddoldeb 2010, sy'n gosod dyletswydd i ymdrin ag anfantais economaidd-gymdeithasol mewn penderfyniadau strategol.

6.5 Deddf y Lluoedd Arfog 2021 - Rhaid i gynghorau roi sylw dyledus i effaith y cynnig hwn ar y rhai sy'n gwasanaethu neu sydd wedi gwasanaethu yn y Lluoedd Arfog, ynghyd â'u teuluoedd.

6.6 Cynhaliwyd asesiad i ystyried y Deddfau uchod ac o ganlyniad, nid yw wedi nodi unrhyw effaith benodol sy'n deillio o'r penderfyniad.

## 7. Tirfeddiannaeth a Phartïon â Diddordeb

7.1 Cafodd bas data Cofrestrfa Tir EF ei chwilio a chadarnhawyd bod y llwybr a hawlir yn effeithio ar y teitlau canlynol:-

| Rhif y Teitl | Y sawl a effeithir |
|---|---|
| **CYM425925** | Prifysgol Bangor, Adran Ystadau, Adeilad Ffriddoedd, Heol Fictoria, Bangor, LL57 2EN |
| | Prifysgol Cymru Bangor, Ysgol Bioleg Planhigion, Ffordd Treborth, Treborth, Bangor |
| **CYM572442** | Cyngor Gwynedd, Swyddfa'r Cyngor, Stryd y Jêl, Caernarfon, LL55 1SH |
| **CYM624987** | James Irvin Margetson, 5 Tŷ Ysgol Coed Menai, Ffordd Treborth, Bangor, LL57 2RX |
| **CYM638716**<br><br>**Neuadd Treborth** | Mark Irvin Margetson + Susan Elizabeth Margetson o 11 Telmah Close, Stretton, Burton-On-Trent, DE13 0EF |
| **Neuadd Treborth** | Mark Irvin Margetson + Susan Elizabeth Margetson, Neuadd Treborth, Treborth, Bangor, Gwynedd, LL57 2RX |
| **CYM639351** | Gary Francis Gribben + Yvonne Gribben o 3 Treborth Mews, Ffordd Treborth, Bangor, LL57 2RX |
| | Thomas Gribben, 3 Tŷ Ysgol Coed Menai, Treborth, Bangor, Gwynedd, LL57 2RX |

| | |
|---|---|
| **CYM643441** | Rowena Lyn Thomas, 2 Tŷ Ysgol Coed Menai, Ffordd Treborth, Bangor, LL57 2RX |
| | 2A Tŷ Ysgol, Coed Menai, Ffordd Treborth, Treborth, Bangor, LL57 2RX |
| **CYM645175** | Camille Addele Owen Hutchinson + James Wallis Hutchinson o 4 Tŷ Ysgol Coed Menai, Ffordd Treborth, Bangor, LL57 2RX |
| **CYM650832** | Emily Rebecca Bowles, 1 Tŷ Ysgol Coed Menai, Ffordd Treborth, Bangor LL57 2RX |
| **Cyn-brifathro rhwng 1996 - 2003** | John Grisdale, Y Glog, Ffordd Bethel, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1DY |
| **Partïon â diddordeb** | |
| Swyddog Cyfrifol, Rheilffordd Genedlaethol, Bangor, Gorsaf Reilffordd, Ffordd yr Orsaf, Bangor | |
| Ysgrifennydd, Clwb Pêl-droed Penrhosgarnedd, 16 Ffordd Gwyndy, Penrhos, Bangor | |
| Gardd Fotaneg, Treborth, Botanic House, Ffordd Treborth, Treborth, Bangor | |
| Gardd Fotaneg Treborth, Rivendell, Ffordd Treborth, Treborth, Bangor | |
| Adran Addysg, Caeau Hen Ysgol Coed Menai, Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SE | |
| Adran Tai ac Eiddo, Caeau Hen Ysgol Coed Menai, Cyngor Gwynedd, Stryd y Jêl, Caernarfon, Gwynedd, LL55 1SE | |
| Network Rail, Waterloo General Office, Llundain, SE1 8SW | |
| Leonard Jones, Treborth Lodge, Treborth, Gwynedd. | |

## 8. Tirfeddianwyr a Effeithir Drwy Barc Busnes Treborth

| **Rhif y Teitl** | **Y sawl a effeithir** |
|---|---|
| **CYM872384** | J.R. WEBSTER AND COMPANY LIMITED (Rhif Cofrestru'r Cwmni 01349584) o Prince William Avenue, Sandycroft, Glannau Dyfrdwy CH5 2QZ |
| **CYM271041** | GARETH WYN JONES a HEFIN WYN JONES, 19 Rhes Gordon, Bethesda, Bangor, Gwynedd LL57 3NR |
| **CYM484521** | THOMAS RICHARD BURLEY a JUSTINE DIANNE BURLEY, Bay View, Promenade, Llanfairfechan, LL33 0BU |
| **WA589160** | Y FONESIG JANE BELLINGHAM o 20 Davenport Park Road, Stockport, Sir Gaer, SK2 6JS. |
| **CYM374236** | GARETH WYN JONES a HEFIN WYN JONES, 21 Brig Y Nant, Llangefni, Ynys Môn, LL77 7QD |

| | |
|---|---|
| **CYM484551** | BARRY JAMES DAVIES a MICHAEL BARRY DAVIES, 1 Tan Y Maes, Ffordd Hendrewen, Bangor, LL57 4DN |
| **CYM865502** | KATIE BRENDA BEECHAM, Higher Farm, Roman Road, Prenton CH43 3DB |
| **CYM844723** | VALERIE SUSAN BLOOR, 140 Fog Lane, Manceinion, M20 6SW |
| **WA478412** | FAIRWAYS CARE LIMITED (Rhif Cofrestru'r Cwmni 3538836), 238 Station Road, Addlestone, KT15 2PS |
| **CYM864855** | DAVID GEORGE BEECHAM Higher Farm, Roman Road, Prenton, CH43 3DB |
| **CYM213032** | LEONARD DAVID MORRIS - JONES a SARAH PATIENCE MORRIS – JONES, Treborth Lodge, Treborth, Bangor, LL57 2RQ |
| | GARETH WYN JONES a HEFIN WYN JONES, The Bungalow, Hill Street, Porthaethwy, Ynys Môn, LL59 5AG |
| **Partïon â diddordeb** | |
| **Cyn-brifathro** | Andreas Huws |
| **Cyn-brifathro** | Sion Owain Jones |

## 9. Datblygiad Ysgol Treborth (a arferai gael ei hadnabod fel Ysgol Coed Menai 1950-2012)

- Adeiladwyd Neuadd Treborth ym 1870 ac roedd yn eiddo i Richard Davies.
- Fel rhan o waith adeiladu'r Neuadd, adeiladodd Richard Davies y bont rheilffordd hefyd sy'n croesi i Erddi Botaneg Treborth heddiw.
- Roedd Neuadd Treborth ym mherchnogaeth y teulu Davies nes i'r eiddo gael ei werthu i Awdurdod Addysg Sir Gaernarfon ym 1950.
- Ym 1950, nodwyd y safle gan Awdurdod Addysg Sir Gaernarfon (yr olynydd oedd y Cyngor) fel lleoliad priodol i ddatblygu ysgol breswyl ar gyfer anghenion arbennig, oherwydd ei amgylchedd tawel ac anghysbell.
- Ym 1951, agorwyd Neuadd Treborth fel ysgol breswyl ar gyfer anghenion arbennig.
- Caeodd yr ysgol breswyl yn 2012 ac arhosodd yr adeilad yn wag nes iddo gael ei werthu gan y Cyngor i'w berchnogion presennol yn 2014 sef Mr a Mrs Margetson.

## 10. Tystiolaeth Defnyddiwr

10.1 Cefnogir y cais gan 197 Datganiad Tystiolaeth yn dangos tystiolaeth o ddefnydd cyhoeddus rhwng 1940 a 2021, y dyddiad pan gafodd y cais ei wneud.

10.2 Mae'r tabl yn Atodiad 2 yn crynhoi'r defnydd a gaiff ei hawlio yn unol â'r Datganiadau. Rhoddir rhif cyfeirnod i bob defnyddiwr, sy'n galluogi eu hadnabod yn yr adroddiad ei hun.

10.3 Cynhaliwyd cyfweliadau gyda 29 o'r 197 o dystion oedd yn cefnogi'r cais. Yn ystod y cyfweliadau, gofynnwyd i'r hawlwyr egluro ac ehangu ar eu tystiolaeth.
Yna, darparodd pob un o'r 29 hawliwr ddatganiadau tyst pellach a gellir gweld y dogfennau hyn yn Atodiad 3.

10.4 Wrth archwilio tystiolaeth y defnyddwyr, ymddengys bod y llwybr wedi'i ddefnyddio am gyfnod o gryn amser. Dechreuodd defnyddiwr 26 ddefnyddio'r llwybr gyntaf ym 1940 ac mae'r cyfnod defnydd yn ymestyn i 2021. Yn y tabl isod, mae pob defnyddiwr wedi'i grwpio yn ôl y flwyddyn y dechreuon nhw ddefnyddio'r llwybr: -

## 10.5 Defnyddwyr

| ***Blwyddyn dechrau*** | ***Cyfeirnod Defnyddiwr*** | ***Cyfanswm*** |
|---|---|---|
| *1940au* | 26 | 1 |
| *1950au* | 100, 115, 118 | 3 |
| *1960au* | 126, 133, 160, 182, 192 | 5 |
| *1970au* | 7, 12, 17, 18, 19, 21, 39, 41, 43, 58, 61, 96, 97, 111, 134, 144, 149, 195 | 18 |
| *1980au* | 13, 14, 20, 23, 28, 33, 37, 38, 45, 46, 48, 49, 51, 52, 53, 56, 57, 59, 74, 79, 80, 83, 98, 99, 103, 104, 122, 123, 124, 125, 151, 159, 167, 168, 169, 170, 172, 177, 178, 183, 187, 188, 191 | 43 |
| *1990au* | 1, 2, 9, 10, 11, 24, 25, 29, 31, 35, 40, 42, 44, 47, 54, 55, 60, 62, 71, 78, 81, 82, 101, 102, 105, 106, 107, 108, 109, 110, 113, 114, 135, 139, 140, 141, 145, 146, 147, 148, 153, 156, 157, 158, 176, 180, 181, 185, 186, 189, 196 | 51 |
| *2000au* | 3, 22, 27, 32, 36, 66, 67, 68, 69, 70, 73, 84, 85, 88, 91,112, 127, 128, 129, 130, 136, 137, 142, 143, 150, 152, 161, 162, 163, 164, 165, 166, 173, 179, 190, 193 | 36 |
| *2010au* | 4, 5, 15, 16, 30, 65, 86, 87, 89, 90, 92, 93, 94, 95, 116, 117, 131, 132, 154, 155, 184, 194, 197 | 23 |
| *2020au* | 6, 8, 174, 175 | 4 |
| *Heb ei bennu* | 34, 50, 63, 64, 72, 75, 76, 77, 119, 120, 121, 138, 171 | 13 |

## 10.6` Amlder Defnydd

10.6.1 Yn ôl y crynodeb o dystiolaeth defnyddwyr, mae 9 defnyddiwr wedi adrodd eu bod yn defnyddio'r llwybr bob dydd, 6 arall bob dydd/bob wythnos, 106 o ddefnyddwyr yn wythnosol, 8 yn wythnosol/misol, 32 defnyddiwr pellach yn fisol, 6 yn fisol/blynyddol a 5 defnyddiwr yn nodi bob blwyddyn. Nid oedd 9 defnyddiwr yn nodi eu hamlder defnydd ac nid oedd manylion defnydd 5 defnyddiwr arall yn ffitio i'r naill gategori na chategori perthnasol.

## 10.7 Math o Ddefnydd

10.7.1 Mae mwyafrif y defnyddwyr yn honni eu bod wedi defnyddio'r llwybr ar droed. Mae peth tystiolaeth i ddangos fod beics yn defnyddio'r llwybr. Fodd bynnag, ystyrir bod y defnydd hwn yn finimal ac nad oes digon o ddefnydd nac amlder i ragdybio ei neilltuo.

## 10.8 Diben y Defnydd

10.8.1 Mae mwyafrif y defnyddwyr yn honni eu bod wedi defnyddio'r llwybr a hawlir er dibenion hamdden. Mae nifer o ddefnyddwyr yn datgan eu bod wedi defnyddio'r llwybr a hawlir fel rhan o lwybr hirach. Er enghraifft, mae rhai yn ei ddefnyddio fel llwybr cylchol, gyda rhai yn defnyddio'r briffordd tra bod eraill yn cerdded o Bont Borth (Pont Grog y Fenai) i Bont Britannia ac yn ôl. Mae tystiolaeth y defnyddwyr hefyd yn awgrymu fod y llwybr wedi cael ei ddefnyddio fel dull mynediad i Bont Borth, Tafarn yr Antelope, Gerddi Botaneg Treborth, Llwybr Arfordir Cymru, Clwb Pêl-droed Penrhosgarnedd a'r Trac Athletau, ac ati (e.e. defnyddwyr 24, 33, 37, 46, 50, 95, 101, 107, 127, 128, 135, 137, 150, 169,177, 179, 183, 195).

10.8.2 Nid oes cofnod o hawl mynediad i'r cyhoedd o Bont Borth drwy Barc Busnes Treborth i'r Gerddi Botaneg. Nid oes cofnod ychwaith o'r ffordd hon yn ymddangos ar y Gofrestr Priffyrdd. Fodd bynnag, mae sawl defnyddiwr (12, 16, 18, 19, 20, 21, 23, 26, 42, 51, 57, 80, 85, 98, 99, 109, 110, 113, 124, 130,133, 136, 140, 151, 152, 153, 169, 174, 175, 183, 184, 186, 193, 194, 195) wedi nodi eu bod wedi defnyddio'r llwybr ymgeisio rhwng peintiau A – E, yn ogystal â'r parhad rhwng E – F, trwy Barc Busnes Treborth i Bont y Borth (Gweler Atodiad 4).

10.8.3 Mae'r Cyngor yn ymwybodol bod rhai defnyddwyr wedi'u hawdurdodi ac ni allant fod yn rhan o'r honiad o ddefnydd hir y llwybr a hawlir. Defnyddwyr o'r fath fyddai'r rhai a fyddai'n mynd a dod o Glwb Pêl-droed Penrhosgarnedd, a'r rhai a ddefnyddiodd y pwll nofio yn Ysgol Treborth (Mae'r cytundeb rhwng y Cyngor a'r Clwb Pêl-droed Lleol wedi'i gadw ar ffeil).

## 10.9 Heriau Llafar

10.9.1 Mae sawl defnyddiwr yn nodi eu bod wedi cael eu herio gan y perchnogion presennol (e.e. defnyddwyr 2, 3, 6, 8, 11, 12, 24, 29, 40, 41, 43, 47, 52, 53, 55, 71, 80, 84, 85, 86, 87, 88, 91, 92, 96, 97, 102, 107, 109, 113, 114, 117, 118, 122, 123, 125, 127, 128, 129, 130, 132, 133, 134, 135, 136, 142, 149, 150, 151, 152, 153, 154, 155, 158, 161, 163, 164, 165, 166, 167, 168, 174, 175, 176, 179,172, 187, 188, 196). Yr hawliad cynharaf i her lafar yw tua 2015 - 2016 a nodir hyn yn natganiad tyst defnyddiwr 80.

## 10.10 Rhybuddion

10.10.1 Mae sawl defnyddiwr yn cyfeirio at arwyddion a rhybuddion (e.e. defnyddwyr 1, 3, 4, 6, 13, 14, 15, 16, 17, 18, 19, 20, 21, 30, 35, 35, 36, 37, 41, 43, 44, 45, 46, 47, 52, 53, 54, 55, 83, 89, 98, 99, 103, 104, 105, 106, 107, 111, 112, 121, 124, 125, 133, 138, 142, 144, 149, 158, 159, 160, 162, 163, 167, 168, 179, 180, 170, 171, 172, 173, 181, 184, 187, 188, 189, 192, 193, 196). Gellir gweld y sôn cynharaf am arwyddion yn ffurflen dystiolaeth defnyddiwr 187 sy'n nodi bod "rhybuddion preifat" wedi ymddangos yn oddeutu 2016. Gellir gweld yr arwyddion y cyfeiriwyd atynt mewn datganiadau defnyddwyr yn Atodiad 1. Mae defnyddiwr 1 wedi darparu ffotograffau o arwyddion y gellir eu gweld yn Atodiad 6. Mae'r arwyddion hyn fel a ganlyn (i) ychydig cyn pont y rheilffordd, 'arwydd pengaead (*dead end*)' gyda "*Access to school and Treborth Farm only*" (ii) "*No Exit from sports ground via this route*" (iii) ers haf 2020, dau arwydd o flaen yr hen ysgol – "*Private, no public access or right of way*" a "*No access exit gate locked*". Dadleuir bod arwyddion 1 a 2 yn berthnasol i draffig cerbydol yn unig. O ran arwydd 3, mae defnyddiwr 1 yn honni bod yr arwydd hwn wedi'i osod yn ystod haf 2020.

### 10.11 Cyfeiriad at Heriau a Rhybuddion sydd wedi Dyddio gan Ddefnyddwyr

| Blwyddyn | Nifer yr Heriau | Cyfeirnod Defnyddiwr | Gwybodaeth Ychwanegol |
|---|---|---|---|
| **2015** | | 80 | Defnyddiwr 80 (Datganiad Tyst) - yn nodi eu bod wedi cael eu herio yn oddeutu 2015 - 2016.<br><br>Derbyniodd Uwch Swyddog Hawliau Tramwy e-bost dyddiedig 22 Mawrth 2015 gan Dilwyn Pritchard, Clerc Dros Dro, Cyngor Cymuned Pentir. Noda'r e-bost hwn fod aelodau o'r cyhoedd wedi cael eu herio am gerdded y llwybr a'u bod yn gofyn am arweiniad. |
| **2016** | 1 | 80, 187 | Defnyddiwr 187 - cyfeiriad at rybuddion preifat a ymddangosodd yn oddeutu 2016 pan brynodd perchennog newydd ysgol Treborth yr eiddo. |
| **2017** | 1 | 149 | Defnyddiwr 149 - wedi'i herio ar lafar yn oddeutu 2017 / 2018. |
| **2018** | 1 | 149, 152 | Defnyddiwr 152 - yn nodi bod arwyddion wedi ymddangos yn oddeutu 2018-2019. Methu cofio'r union eiriad, rhywbeth ynglŷn â thresbasu ger yr ysgol. Credu bod yr arwyddion wedi'u gosod gan berchennog newydd Neuadd Treborth. |
| **2019** | 3 | 152, 20, 133, 167 | Defnyddiwr 20 - cyfeiriad at arwyddion ar giât ger y Mews - (i) please shut gate (ii) CCTV in operation (iii) dogs loose.<br>Defnyddiwr 133 - wedi'i herio ar lafar wrth basio'r hen ysgol.<br>Defnyddiwr 167 - wedi'i herio ar lafar gan berchennog Neuadd Treborth wrth gerdded heibio'r Neuadd. |
| **2020** | 4 | 52, 107, 142, 151 | Defnyddiwr 52 - wedi'i herio gan berchennog newydd yr eiddo wrth gerdded i'r Gerddi Botaneg. Defnyddiwr 107 - wedi'i herio gan y perchennog a'i fab o flaen y Neuadd.<br>Defnyddiwr 151 - wedi'i herio gan berchennog presennol yr hen ysgol.<br>Defnyddiwr 142 - cyfeiriad at aflonyddu. |
| **2021** | 11 | 1, 2, 3, 10, 11, 24, 29, 55, 168, 176, 187, 196, | Defnyddiwr 1 - cyfeiriad at arwyddion (gweler 8.10 uchod)<br>Mae'r holl ddefnyddwyr eraill yn cyfeirio at heriau llafar. |

| | |
|---|---|
| | Lansiwyd deiseb Change.org ym mis Gorffennaf 2021 – 249 o lofnodion.<br><br>Derbyniwyd y cais gan y Cyngor ym mis Awst 2021. |

# 11. Tystiolaeth arall yn cefnogi'r cais

## 11.1 Llythyrau Cefnogi

11.1.1 Cyflwynodd yr ymgeisydd bedwar o lythyrau cefnogi gyda'r cais (gweler atodiad 5). Ysgrifennwyd y llythyrau gan: -

- John Grisdale, cyn-brifathro Ysgol Coed Menai rhwng 1998 a 2003 – yn cadarnhau defnydd cyhoeddus o'r llwybr a hawlir ac yn cyfeirio at agwedd groesawgar yr ysgol at aelodau o'r cyhoedd.
- Y Cynghorydd Enid Parry, Cyngor Dinas Bangor – yn cefnogi "*defnydd hir-sefydlog o'r llwybr*" ond nid yw'n darparu tystiolaeth o'i defnydd personol o'r llwybr.
- Y Cynghorydd Elin Walker Jones, Ward Glyder – yn cefnogi hawl tramwy ac yn nodi bod nifer o'i hetholwyr wedi dweud eu bod yn cael eu hatal rhag defnyddio'r ffordd er eu bod wedi defnyddio'r ffordd am flynyddoedd cyn hynny heb unrhyw broblem o gwbl.
- Thomas Gribben, 3 Tŷ Ysgol Coed Menai - yn cadarnhau bod pobl yn defnyddio'r ffordd i fynd â'u cŵn am dro ac i ymweld â'r gerddi botaneg.

## 11.2 Ffotograffau

11.2.1 Mae'r defnyddwyr a nodir isod wedi darparu ffotograffau gyda'u datganiadau tystiolaeth a gellir gweld y ffotograffau hyn yn atodiad 6: -

- John T Purcell (defnyddiwr rhif 125) – ffotograff o de parti cymunedol o flaen Ysgol Treborth.
- Manon Griffiths (defnyddiwr rhif 195) – ffotograffau o'i theulu yn defnyddio'r llwybr a hawlir.
- Esyllt M B Jones (defnyddiwr rhif 196) - ffotograffau o'i theulu yn defnyddio'r llwybr a hawlir.

# 12. Tystiolaeth Tirfeddiannwr

## 12.1 Ymgynghoriad

12.2 Cynhaliwyd ymgynghoriad ar 10 Tachwedd 2023, yn gwahodd tirfeddianwyr a nodwyd a phartïon eraill â diddordeb i gyflwyno tystiolaeth ynglŷn â llwybr y cais (A-E).

12.3 Mae llwybr y cais yn croesi tir sydd ym mherchnogaeth tri phrif dirfeddiannwr ar hyn o bryd - Neuadd Treborth, Pont rheilffordd sy'n eiddo i'r Cyngor a Gerddi Botaneg Treborth. Cafodd tirfeddianwyr cyfagos a thrydydd parti a nodwyd hefyd eu cynnwys yn yr ymgynghoriad.

12.4 Gellir gweld crynodeb o'r ymateb a dderbyniwyd yn Atodiad 7. Lluniodd dau dirfeddiannwr adroddiadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad a gellir gweld y rhain yn Atodiadau 8, 9, ac 9a.

12.5 Fodd bynnag, wrth ymchwilio i'r cais, canfu fod sawl defnyddiwr yn honni eu bod wedi cerdded y llwybr rhwng A ac E, yn ogystal â'r parhad rhwng E a F, sy'n arwain drwy Barc

Busnes Treborth i'r A5 ger Pont Borth. Yn dilyn cyngor y cyfreithiwr, rhaid i'r Cyngor gwestiynu a ddylem wneud Gorchymyn i gofrestru llwybr y cais (pwyntiau A - E) yn ogystal â'r parhad o bwynt E i F.

12.6 Nid oes unrhyw berchennog cofrestredig o ran y ffordd drwy'r Parc Busnes (E-F).

12.7 Felly, cynhaliwyd ymgynghoriad pellach ar 7 Mawrth 2025 ynglŷn â llwybr A-F. Gellir gweld crynodeb o'r ymatebion a dderbyniwyd yn Atodiad 7. Lluniodd dau dirfeddiannwr adroddiadau mewn ymateb i'r ymgynghoriad hwn a gellir gweld y rhain yn Atodiadau 10, 10a a 11.

## 13. Sylwadau ar Dystiolaeth Tirfeddianwyr

Ni fydd hawl wedi'i neilltuo os gall tirfeddiannwr ddangos gyda phrawf eu bod wedi cymryd camau i atal hawliau cyhoeddus rhag cronni dros ffordd. Rhaid i'r camau hyn fod yn amlwg, yn berthnasol i'r ffordd y mae'r tir yn cael ei hawlio, ac yn gallu hysbysu'r cyhoedd am fwriadau'r tirfeddiannwr. Gall camau o'r fath gynnwys gosod a chloi giatiau, gosod hysbysiadau ac arwyddion ar yr eiddo yn hysbysu pobl nad yw'r llwybr yn gyhoeddus neu ei fod yn cael ei ddefnyddio gyda chaniatâd.

### 13.1 Heriau Llafar

13.2 Fel y nodwyd yn adran 8.9, gwnaed cryn ymdrech gan Mr a Mrs Margetson, perchnogion Neuadd Treborth a chan Mr J Margetson o 5 Tŷ Ysgol i herio defnyddwyr ar lafar ar y llwybr a hawlir.

13.3 Noda Mr a Mrs Margetson eu bod wedi symud i Neuadd Treborth ym mis Gorffennaf 2014. Yn ystod misoedd cynnar y berchnogaeth, mae Mr a Mrs Margetson yn cofio stopio rhedwr un bore Sul.

13.4 Cefnogir hyn hefyd yn ymateb Mr James Margetson a datganiad tyst Mr Tom Gribben sy'n nodi fod perchnogion newydd Neuadd Treborth wedi dechrau herio defnyddwyr cyn gynted ag y symudasant i'r eiddo.

13.5 Gellir gweld y sôn cynharaf am heriau llafar mewn tystiolaeth tystion yn natganiad tyst defnyddiwr 80, lle mae gan y tyst gof clir o gael ei herio wrth gerdded ar hyd y llwybr a hawlir gyda ffrind. Noda defnyddiwr 80 fod yr her hon wedi digwydd yn oddeutu 2015 - 2016.

13.6 Mae yna dystiolaeth pellach hefyd fod heriau wedi'u gwneud yn 2015 gan berchnogion Neuadd Treborth. Mewn e-bost dyddiedig 22 Mawrth 2015, cysylltodd Dilwyn Pritchard, Clerc Dros Dro, Cyngor Cymuned Pentir, ag Uwch Swyddog Hawliau Tramwy Cyngor Gwynedd yn mynegi pryder for pobl, yn ôl pob golwg, yn cael eu herio am ddefnyddio'r llwybr a hawlir a'i fod yn chwilio am gyngor (Gweler Atodiad 12).

### 14. Heriau: Rhybuddion ac Arwyddion

14.1 Ystyrir bod dangos rhybuddion ar ffordd yn ddull effeithiol o wrthbrofi barn dybiedig fod llwybr wedi'i neilltuo. Mae Adran 31(3) Deddf Priffyrdd 1980 yn darparu fod codi a chynnal rhybudd, yn absenoldeb prawf o fwriad i'r gwrthwyneb, yn dystiolaeth ddigonol i negyddu'r bwriad i neilltuo'r ffordd fel priffordd.

## 15. Rhybuddion Diweddar

15.1 Yn yr achos hwn, cafwyd camau gan Mr a Mrs Margetson ers iddynt symud i Neuadd Treborth ym mis Gorffennaf 2014. Er enghraifft, codi sawl arwydd yn nodi ***'Private Property', 'No Public Right of Way'*, a *'No Thoroughfare'***. Gellir gweld darn o ymateb Mr a Mrs Margetson sy'n dangos lleoliadau'r arwyddion hyn yn Atodiad 13. Honna Mr a Mrs Margetson bod yr arwyddion hyn wedi'u codi ym mis Gorffennaf 2014 ar ôl iddynt brynu Neuadd Treborth.

15.2 Mae Mr James Margetson o 5 Tŷ Ysgol hefyd wedi cymryd camau ac mae hyn yn cynnwys arwyddion a stopio pobl wrth iddynt ddefnyddio'r llwybr. Gellir gweld ymateb Mr James Margetsons yn Atodiad 10.

## 16. Rhybudd Hanesyddol

16.1 Gofynnwyd i Gynghorau Plwyf gynnal arolwg o'r holl hawliau tramwy cyhoeddus ar ddechrau'r 1950au yn unol â Deddf Parciau Cenedlaethol a Mynediad i Gefn Gwlad 1949 (Deddf 1949), ynghyd â datganiad disgrifiadol yn amlinellu'r nodweddion perthnasol a'r pwyntiau lle mae pob ffordd yn dod i ben.

16.2 Ar 1 Mai 1951, fe wnaeth H.P. Jones a W.R. Davies, ar ran Cyngor Plwyf Pentir, archwilio llwybr troed y daethpwyd i'w adnabod fel Llwybr Troed Rhif 12. Gellir gweld Llwybr Troed Rhif 12 (y mae llwybr y cais yn cysylltu iddo) ar y cynllun a ddarparwyd yn Atodiad 1.

16.3 Wedi archwilio'r llwybr, lluniwyd Datganiad Swyddogol ar gyfer Llwybr Troed Rhif 12 (gweler Atodiad 14). Mae'r Datganiad yn disgrifio bodolaeth rhybuddion ar Lwybr Troed Rhif 12 ym 1951 ac mae'r ddogfen yn darllen fel a ganlyn: ***"On the gates at the main road entrance to Treborth Farm there are two Notices. One marked 'Private' and the other 'No Unauthorised Person Allowed by Order of the Caernarvonshire Education Authority'." It also states "but according to Public Testimony, there has always been a right of way"*.**

16.4 Pan agorwyd Ysgol Treborth (a arferai gael ei hadnabod fel Ysgol Coed Menai) gan Awdurdod Addysg Sir Gaernarfon ym 1950, roedd yr Awdurdod hefyd yn berchen ar y fferm (a adwaenir bellach fel Treborth Leisure). Mae'r ysgol a'r fferm yn rhannu'r un lôn mynediad o'r A487 ac yna gellir dilyn dwy lôn sy'n fforchio i gael mynediad i'r fferm. Er bod y rhybudd yn nodi ***'On the gates at the main road entrance to Treborth Farm'*,** mae hyn yn awgrymu y gallai'r hysbysiadau fod wedi'u lleoli gerllaw'r A487. Mae Mr a Mrs Margetson yn credu y gellir gweld lleoliad y gatiau ar Fapiau'r Arolwg Ordnans dyddiedig 1948, 1963, a 1972 (Gweler Atodiad 15).

16.5 Mae peth amheuaeth am fwriad y rhybudd hwn gan fod y Datganiad yn nodi ***'the entrance to Treborth Farm'*** ac nad yw'n crybwyll yr ysgol. Noda'r Datganiad hefyd ***'but according to Public Testimony, there has always been a right of way'*** a phetai'r arwydd wedi bod yn bresennol ar y fynedfa o'r A487, byddai gan ddefnyddwyr hawl cyfreithiol i barhau ar Lwybr Troed Rhif 12 ar hyd y lôn fynediad. Mae Llwybr Troed Rhif 12 yn troi ymhellach i fyny'r lôn fynediad o'i gymharu â lleoliad honedig y giatiau lle allai'r rhybuddion fod wedi bod yn bresennol.

16.6 Ymhellach, nid oes unrhyw gofnod o rybuddion tebyg i atal defnyddwyr sy'n teithio i gyfeiriad dwyreiniol ar hyd Llwybr Troed Rhif 12 ar y llwybr a hawlir, nac unrhyw gofnod o rybuddion tebyg i atal defnyddwyr sy'n teithio ar hyd y llwybr a hawlir i gyfeiriad deheuol o Erddi Botaneg Treborth.

16.7 Datganiad Swyddogol Llwybr Troed Rhif 12 yw'r unig gofnod hysbys o fodolaeth y rhybuddion hyn ac nid oes unrhyw dystiolaeth i awgrymu bod y rhybuddion hyn wedi'u cynnal. Nid oes unrhyw dystiolaeth gan ddefnyddwyr i gefnogi na thystio bodolaeth y rhybuddion a grybwyllwyd yn y Datganiad.

16.8 Mae tystiolaeth defnyddwyr yn mynd yn ôl i 1940, ac mae pedwar defnyddiwr yn honni eu bod wedi defnyddio'r llwybr a hawlir yn ystod yr 1950au pan agorodd yr ysgol. Fodd bynnag, yn eu tystiolaeth nid oes yr un o'r pedwar defnyddiwr yn cofio gweld y rhybuddion.

16.9 Wrth gyfweld â'r tystion, wrth holi am arwyddion a rhybuddion, ni wnaeth yr un o'r 29 defnyddiwr grybwyll y rhybuddion penodol y cyfeiriwyd atynt yn y Datganiad Swyddogol. Fodd bynnag, gallai defnyddwyr gofio arwyddion yn bresennol yn y blynyddoedd diweddar, o'r adeg pan brynwyd Neuadd Treborth gan y perchnogion presennol. Y dystiolaeth gynharaf o'r arwyddion hyn yw oddeutu 2016 (defnyddiwr 187).

### 17. Crwydro yn rhydd

17.1 O flaen Neuadd Treborth - Honna Mr a Mrs Margetson bod defnyddwyr yn crwydro'n rhydd a ddim yn cadw at y llwybr a hawlir.

17.2 Yn union o flaen Neuadd Treborth, mae yna ardal darmac fawr gyda rhai mannau parcio. Gyferbyn â'r ardal darmac, mae yna ardal laswelltog y cyfeirir ati yn y dystiolaeth fel 'ynys laswelltog'. Wrth arwain at yr ardal darmac, mae yna drac bras sy'n dilyn llinell ffens ar y chwith i ardal goediog gyferbyn â'r 'ynys laswelltog'.

17.3 Yn natganiadau Mr a Mrs Margetson a James Margetson, maent yn nodi bod pobl yn crwydro ac yn cael picnic ar hyd yr ardal laswelltog, yn defnyddio'r trac ac yn crwydro o gwmpas drysau'r Neuadd. Mae'r Margetsons hefyd yn pwysleisio y byddai ceir yn parcio ar yr ardal darmac gan rwystro'r llwybr a hawlir.

17.4 Mae'r dystiolaeth yn awgrymu bod defnydd yn cael ei wneud o'r trac bras, a'i fod yn cael ei ddefnyddio'n achlysurol fel llwybr amgen i'r ffordd tarmac sy'n arwain at bont y rheilffordd. Mae'r trac bras hwn yn cael ei grybwyll yn natganiadau'r defnyddwyr e.e. "this track has long been overgrown…I mainly go in front of the school. The other track is not very nice in winter…" (defnyddiwr 51), ''…a track that I have used to walk sometimes too, especially when there are many cars parked in front of the school.'' (defnyddiwr 80), ''On occasions, I have used the off-road track that goes behind the trees, just missing the front of the school before re-joining the tarmac lane.'', ''…a track that runs through the woods, but if it's wet and muddy, we'll walk on the tarmac.'' (defnyddiwr 130).

17.5 Fodd bynnag, ymddengys bod mwyafrif y defnyddwyr yn cerdded ar y ffordd tarmac sy'n mynd heibio blaen y Neuadd. Yn wir, dengys y dystiolaeth mai dyma'r prif lwybr. Mae'n amheus p'un a yw defnydd o drac bras yn ddigonol ar gyfer diben neilltuaeth dybiedig.

## 18. Llwybr Arfordir Cymru

18.1 Noda Mr a Mrs Margetson fod y llwybr arfaethedig yn cysylltu i Lwybr Arfordir Cymru (Llwybr Troed Rhif 22) a grëwyd yn 2012. Maent yn dadlau nad oedd y llwybr arfaethedig yn cysylltu â man/priffordd gyhoeddus cyn 2012. Mae Mr a Mrs Margetson hefyd yn honni bod tystiolaeth defnyddwyr yn dangos sawl rheswm/cyrchfan derfynol ar gyfer y llwybrau honedig a ddefnyddiwyd.

18.2 Cyn creu Llwybr Troed Rhif 22 drwy gyfrwng cytundeb cyfreithiol, noda Rhys Gwyn Roberts, Swyddog Prosiect Llwybr Arfordir Cymru, fod tystiolaeth ar lawr gwlad i awgrymu y gallai'r

llwybr fod wedi cael ei ddefnyddio gan y cyhoedd cyn dyddiad y cytundeb (Gweler Atodiad 16).

18.3 Er nad oedd Llwybr Troed Rhif 22 yn bodoli'n gyfreithiol cyn 2012, mae'n bwysig nodi fod sawl defnyddiwr yn disgrifio parhau o Lwybr Troed Rhif 22 ym mhwynt E drwy Barc Busnes Treborth tuag at Bont Borth ym mhwynt F (e.e. Defnyddwyr 12, 16, 18, 19, 20, 21, 23, 26, 42, 51, 57, 80, 85, 98, 99, 109, 110, 113, 124, 130, 133, 136, 140, 151, 152, 153, 169, 174, 175, 183, 184, 186, 193, 194, 195 - gellir gweld detholiadau o'r fath dystiolaeth yn Atodiad 4). Mae defnyddwyr yn nodi bod y parhad (E-F) yn cael ei ddefnyddio fel modd o gyrraedd Tafarn yr Antelope, Pont Borth ac ati. Mae defnyddwyr hefyd yn sôn bod y parhad, ynghyd â llwybr cais A-E, yn cael ei ddefnyddio fel llwybr cylchol, gyda llawer ohonynt yn cychwyn o'u cartrefi. Ymddengys bod llwybr cylchol yn llwybr arbennig o boblogaidd gan breswylwyr sy'n byw ym Mhenrhosgarnedd, Bangor Uchaf a thu hwnt, er enghraifft, Ynys Môn.

## 19. Ysgol Treborth

### 19.1 Mr John Grisdale (cyn-brifathro Ysgol Treborth 1998 – 2003)

19.2 Yn ystod y 90au, roedd Cyngor Gwynedd a Sustrans mewn trafodaethau ynglŷn â chreu llwybr beicio cenedlaethol oedd yn arwain drwy Dreborth. Un opsiwn oedd i'r llwybr beicio fynd heibio tiroedd ysgol Treborth a John Grisdale oedd y pennaeth ar y pryd.

19.3 Ar 11 Mehefin 1999, ysgrifennodd Mr John Grisdale lythyr at Mr Iwan Roberts, Cydlynydd Addysg Cynorthwyol, i fynegi ei bryder ynglŷn â llwybr beicio cenedlaethol drwy diroedd yr ysgol yn dilyn cyfarfod a gynhaliwyd gyda chynghorwyr yr ysgol (Gweler Atodiad 17).

19.4 Roedd Mr Grisdale wedi cydnabod bod y cyhoedd yn cerdded ar diroedd yr ysgol a'i fod wedi bod yn gweithio dros y flwyddyn ddiwethaf i rwystro mynediad i'r cyhoedd yn fwriadol ar ffiniau tiroedd yr ysgol drwy godi ffensys a rhwystrau. Cafodd hyn ei ariannu gan grantiau diogelwch oedd ar gael drwy'r Swyddfa Gymreig. Mae'r llythyr yn mynegi ei bryder ynglŷn â rhoi'r hawl i'r cyhoedd gerdded ar ymylon ysgol anghenion arbennig a sut allai achosi anhawster a denu pobl ddieithr amheus i'r safle. Mae'r llythyr yn mynd ymlaen drwy nodi y byddai mynediad cyhoeddus i'r ysgol a'r trac rheilffordd yn annog plant ysgol i fynd ar diroedd anniogel a byddai'n ffordd amgen i blant ysgol ddianc.

19.5 Fel rhan o'r cais, cyflwynwyd llythyr cefnogi gan John Grisdale ac mae hyn yn croes-ddweud ei fwriadau ym 1999 (Gweler Atodiad 5). Mewn llythyr dyddiedig 18 Ebrill 2021, mae Mr Grisdale yn nodi'n gyntaf ei fod wedi bod yn bennaeth ers 1998 tan 2003 ac yn parhau i drafod y llwybr a hawlir. Yn ôl Mr Grisdale, yn ystod ei amser yn gweithio yn yr ysgol, ni phrofwyd unrhyw anhawster erioed gyda phobl yn cerdded ar y llwybr a'i fod yn arferol gweld pobl yn cerdded drwy'r lle. Noda bod yna awyrgylch groesawgar i'r cyhoedd a'i fod yn naturiol i bobl gerdded drwy'r tiroedd i gael mynediad i lwybrau eraill. Daw'r llythyr i ben drwy nodi mai dyma fu'r sefyllfa ers i'r ysgol agor ym 1950.

19.6 Mae llythyrau Mr Grisdale yn creu croesddywediad ynglŷn â'r sefyllfa ac felly, gwnaed ymholiadau pellach er mwyn derbyn eglurhad am ei fwriadau nôl ym 1999. Mewn ymateb dyddiedig 3 Tachwedd 2023, yn gryno, mae Mr Grisdale yn egluro ei fwriadau nôl ym 1999, roedd yn bwriadu cadw'r plant yn ddiogel o fewn tiroedd yr ysgol a sicrhau nad oedd y cyhoedd yn cerdded i lefydd na ddylent megis y giât i'r mynediad i gefn y pwll nofio a'r ardal farchogaeth i'r anabl. Nid oedd eisiau i dresbaswyr a lladron gael mynediad i'r adeiladau allanol yn y gerddi. Er iddo nodi yn ei lythyr ym 1999 fod grantiau wedi'u defnyddio i ddiogelu tiroedd yr ysgol, eglurodd yn ei ymateb diweddar na dderbyniwyd yr arian grant

hwn erioed. Mae Mr Grisdale yn cadarnhau na wnaeth erioed geisio stopio unrhyw unigolyn rhag cerdded ar y llwybr.

19.7 Mewn datganiadau tystiolaeth defnyddwyr, nid oes unrhyw wybodaeth i gefnogi cynnwys llythyr Mr Grisdale ym 1999 ac fel y gwelir yn llinell amser y defnydd, roedd defnyddwyr yn parhau i gerdded ar y llwybr a hawlir ar ôl dyddiad y llythyr.

### 19.8 Mr Trystan Williams (mab Mr William Parry Williams, cyn-brifathro Ysgol Treborth rhwng 1973 – 1995)

19.9 Mae Mr Trystan Williams yn datgan ei fod wedi ei fagu ar dir yr ysgol rhwng 1973 a 1995, pan oedd ei dad yn brifathro. Maen disgrifio'r trefniadau mynediad a'r rhyngweithio rhwng yr ysgol a'r gymuned yn ystod y cyfnod hwn. Mae Mr Williams yn cofio i’r cyhoedd ddefnyddio'r ffordd i fyny at Neuadd Treborth heb unrhyw rwystrau. Yn ogystal, mae Mr Williams yn cadarnhau nad oedd unrhyw gatiau parhaol yn bresennol rhwng Ffordd Treborth a Gerddi Botanegol Treborth. Dim ond ar adegau y defnyddiwyd gatiau dros dro, er enghraifft yn ystod gweithgareddau penodol yr ysgol yn yr ardd flaen.

19.10 Pan oedd tad Mr Williams yn brifathro, maen datgan fod ei dad wedi annog integreiddio y gymuned â'r ysgol, er gwaethaf y ffaith bod gan y disgyblion anghenion addysgol arbennig. Credai Mr W.P. Williams y dylai'r plant gael perthynas gadarnhaol gyda’r gymuned leol. Cyfeirir at hyn fel ethos a charreg craidd yn natganiad Mr Williams.

19.11 Mae Mr Trystan Williams yn datgan y byddai'n gweld trigolion lleol yn cerdded i ac o Dreborth, cerddwyr lleol, cerddwyr cŵn, teuluoedd yn mynd i'r Gerddi Botaneg, rhieni gyda phramiau a chadeiriau gwthio. Yn ogystal â'r rhai sy'n defnyddio cyfleusterau fel Clwb Pêl-droed Penrhosgarnedd, Marchogaeth i'r Anabl, Aelodau Clwb Gateway, Clwb Rygbi Porthaethwy. Disgrifir y gweithgaredd hwn fel llif cyson o aelodau'r gymuned ac fe greodd hyn awyrgylch cadarnhaol o barch i'r ddwy ochr.

19.12 Yn ôl Mr Williams, roedd ei dad wedi gosod arwyddion pwrpasol i ddarparu ar gyfer a hwyluso mynediad i'r cyhoedd. Disgrifir y rhain fel arwyddion gwyrdd gyda llythrennau gwyn, a fyddai'n dangos ymwelwyr i brif fynedfa'r ysgol neu i'r ffordd, a oedd yn rhedeg i gyfeiriad gwahanol ac i ffwrdd o'r ysgol a thai'r preswylwyr.

19.13 Gellir gweld datganiad llawn Mr Williams yn Atodiad 17a.

## 20. Rhwystr Melyn

20.1 Mae sawl cyfeiriad yn y dystiolaeth at rwystr melyn ar y llwybr a hawlir. Lleolir y rhwystr dan sylw ger y bont rheilffordd ym mhwynt C. Gellir gweld ffotograff o'r rhwystr hwn yn Atodiad 18.

20.2 Creda Mr a Mrs Margetson fod y rhwystr wedi cael ei godi yn oddeutu 1950 a'i fod wedi cael ei weithredu gan Gyngor Sir Caernarfon er dibenion diogelwch yr ysgol. Honna Mr James Margetson fod y rhwystr melyn wedi cael ei godi gan yr awdurdod addysg ac mae'n sôn fod y cyfeiriad cynharaf at y rhwystr hwn yn yr 1970au.

20.3 Mae ffotograff a ddarparwyd gan Mr a Mrs Margetson (dyddiedig 1997 yn ôl pob tebyg) yn dangos y rhwystr yng nghefndir y llun, sydd wedi cau yn ôl pob golwg. Mae'n amhosib dweud a yw'r rhwystr a welir yn y ffotograff wedi cloi. Fodd bynnag, mae Mr a Mrs Margetson yn honni fod y rhwystr melyn wedi cau/cloi tra'r oedd yr ysgol yn weithredol. Mae cyfeiriad pellach at y rhwystr melyn wedi'i gloi ar ôl i'r ysgol gau a chael ei gwerthu. Wrth

gael eu cwestiynu am bwrpas y rhwystr, mae sawl defnyddiwr yn credu ei fod wedi cael ei osod i rwystro cerbydau yn unig.

20.4 Noda Mr John Grisdale, cyn-brifathro ysgol Treborth, fod y rhwystr wedi cael ei osod i atal ceir rhag gyrru drwy diroedd yr ysgol. Mae defnyddwyr hefyd yn sôn fod y llwybr troed a hawlir wedi'i ddefnyddio fel 'llwybr sydyn (*shortcut*)' gan geir i osgoi tagfeydd ar briffordd yr A487 a phwrpas y rhwystr oedd cyfyngu ar gerbydau (gweler defnyddiwr 51, 118, 194) datganiadau wedi'u diweddaru.

20.5 Fodd bynnag, mae defnyddwyr yn honni eu bod wedi cerdded o gwmpas y rhwystr ac nad oedd wedi'u hatal rhag defnyddio'r llwybr a hawlir. Mae defnyddiwr 194 yn credu fod y rhwystr hwn wedi'i ddefnyddio i stopio ceir ond eglura bod lle i bobl gerdded o'i gwmpas.

## 21. Giatiau a Ffens Heras

21.1 Mae cyfeiriad yng ngwrthwynebiad Mr James Margetson at giatiau wedi'u lleoli ar y llwybr a hawlir mewn sawl lleoliad dros y blynyddoedd. Honnir bod y giatiau yn bresennol yn ystod y cyfnod rhwng 1951 - 1970au yng nghyffiniau Ysgol Treborth. Ymhellach at hyn, honnir bod giât o flaen Gerddi Botaneg Treborth yn y 1970au. Cyfeirir hefyd at giatiau a ffensys yn cael eu gosod ym 1996/7 gan Ysgol Treborth. Fodd bynnag, nid oes unrhyw dystiolaeth amlwg i gefnogi'r honiad bod y giatiau hyn - os oeddent yn bodoli - wedi'u cloi mewn gwirionedd ac wedi stopio cerddwyr rhag defnyddio'r llwybr a hawlir.

21.2 Honna Mr James Margetson fod Giât Neuadd Treborth wedi cael ei gosod a'i chloi'n aml gan Gyngor Gwynedd i atal mynediad o Ffordd Treborth.

21.3 Fodd bynnag, mae Mr Brian Molyneux, preswylydd o Dŷ Ysgol ers dros 25 mlynedd, yn sôn am y giât hon yn ei dystiolaeth ac yn nodi ei bod wedi cael ei gosod gwn gwmni diogelwch. Cafodd y giât hon ei chloi, yn ôl bob sôn, tua 11pm a'i hagor eto ar ôl oddeutu 6am. Sonnir bod y cwmni diogelwch wedi rhoi allwedd i'r preswylwyr ar gyfer y giât hon. Mae'n bwysig nodi bod y giât hon wedi'i lleoli ar hawl tramwy cyhoeddus (Llwybr Troed Rhif 12) presennol i ogledd-ddwyrain pwynt A. Ymhellach, ymddengys bod yna ddigon o le i gerddwyr fynd heibio at ochr arall y giât. Byddai hynny wedi golygu na fyddai cloi'r giât benodol hon wedi cael unrhyw effaith ar y rhai oedd yn defnyddio Llwybr Troed Rhif 12 a/neu'r llwybr a hawlir.

21.4 Noda Mr a Mrs Margetson eu bod wedi gosod giât (a ddisgrifir yn eu datganiad gwrthwynebu fel "*Side Gate next to the Penrhosgarnedd FC facility*") ar ôl prynu'r eiddo yn 2014. Honna Mr a Mrs Margetson bod 'Christy Security' wedi'u cynghori i ailosod y giât i atal mynediad i'r cyhoedd. Maent yn nodi bod pyst giatiau a cholynnau eisoes yn eu lle sy'n awgrymu fod giât wedi bod yma o'r blaen.

21.5 Maent yn nodi bod y giât ochr yma wedi'i chloi'n barhaol gyda chlo rhifol o fis Gorffennaf 2014 a bod tri arwydd wedi'u gosod ar y giât. Un o'r arwyddion rhain oedd arwydd "*Christy Security*" a dau arwydd arall - wedi'u gosod gefn wrth gefn - yn arddangos y geiriau "*Private Property Keep Out*". Noda Mr a Mrs Margetson fod ffens Herras wedi'i gosod ar ochr y giât i sicrhau nad oedd cerddwyr yn mynd drwyddi. Maent hefyd yn nodi bod y giât hon wedi cael ei dwyn ym mis Mehefin 2015.

21.6 Mae Ms Rowena Thomas yn cofio fod Mr a Mrs Margetson "wedi ceisio gosod giât ger Neuadd Treborth ei hun" ond mae'n nodi bod y giât wedi cael ei thynnu. Mae'n edrych yn debyg bod y giât hon yn cael ei chyfeirio ati fel y "Giât ochr drws nesaf i gyfleuster Clwb Pêl-droed Penrhosgarnedd" yng ngwrthwynebiad Mr a Mrs Margetson. Mae Mr Thomas Gribben hefyd yn cofio'r giât hon ac yn egluro ei bod yno sawl mis ar ôl iddo symud yno a'i

bod wedi'i gosod tua mis Chwefror 2015. Fodd bynnag, mae Mr Gribben yn egluro ei bod yno am gyfnod byr a'i bod wedi'i thynnu'n gyflym ac yna'i hailosod yn ddiweddarach tua mis Mai/Mehefin 2022. Mae Mr Mollyneux hefyd yn sôn am y giât hon ac yn datgan bod y giât wedi'i chau ond nad oedd erioed wedi'i chloi.

21.7 Yn fuan ar ôl i'r ysgol gau yn 2012, penodwyd cwmni o'r enw 'Christy Security' gan y Cyngor i ddiogelu'r eiddo gyda ffens Herras. Honna Mr a Mrs Margetson bod hyn wedi diogelu'r ysgol a'r tiroedd a hefyd wedi rhwystro defnydd y cyhoedd o'r llwybr a hawlir.

21.8 Cyfeirir hefyd at y ffens Herras yn natganiad tyst defnyddiwr 118. Fodd bynnag, mae defnyddiwr 118 yn disgrifio'r ffens Herras o gwmpas adeilad yr ysgol ei hun gydag arwydd preifat ynghlwm. Nid yw defnyddiwr 118 yn sôn am ffens Herras ar draws y llwybr a hawlir.

21.9 Ers hynny, mae Christy Security wedi newid ei enw i Keywise Security. Wrth ymchwilio i'r cais, cysylltodd y Cyngor â'r cwmni ynglŷn â'r ffens Herras yn Neuadd Treborth. Mae Mr Brendan Christy o'r cwmni yn nodi mai dim ond am y gwiriadau diogelwch a'r larymau oedd y cwmni'n gyfrifol ar ran y Cyngor. Mae Mr Christy yn cadarnhau na wnaeth y cwmni osod na chyflenwi ffensys. Mae gan Mr Christy gof clir o ffens Herras yn cael ei chodi gan y Cyngor o flaen yr eiddo oherwydd bod rhaid iddynt agor y ffens i gael mynediad. Ni all Mr Christy gofio lle arall oedd y ffens wedi'i lleoli. Ar ôl i'r adeilad gael ei werthu, mae Mr Christy yn egluro bod y perchnogion newydd wedi tynnu'r ffens. Ymhellach at hyn, mae Mr Christy yn cadarnhau nad oedd gan y cwmni ddim i'w wneud â'r perchnogion newydd.

## 22. Defnydd Caniataol

22.1 Honnir gan dirfeddiannwr presennol Neuadd Treborth bod gan ddefnyddwyr y llwybr a hawlir ganiatâd gan yr hen ysgol gan fod ganddynt resymau dilys i fod ar diroedd yr ysgol, er enghraifft, i fynd â'u plant i wersi nofio yn yr ysgol. I gefnogi'r honiad hwn, mae Mr a Mrs Margetson wedi cynhyrchu datganiad gan Mr Andrzej Griffiths (gweler atodiad 19), a oedd yn gyn-athro yn yr hen ysgol rhwng 1981-1989 ac eto yn 1995 - 2005. Mae Mr Griffiths yn datgan y byddai gan y rhai a oedd ar dir yr ysgol reswm cyfreithlon dros fod yno ac na fyddai unrhyw aelodau o'r cyhoedd wedi bod yn crwydro o gwmpas. Pe bai aelod o'r cyhoedd wedi bod ar dir yr ysgol heb reswm, byddai staff yr ysgol wedi mynd atynt.

22.2 Er gwaethaf datganiad Mr Griffiths, nid yw tystiolaeth y defnyddiwr yn cadarnhau ei honiadau.

22.3 Mae llawer o ddefnyddwyr yn honni eu bod wedi cerdded ar y llwybr i fynd â'u plant i'r mathau hyn o weithgareddau, a hefyd yn honni eu bod wedi defnyddio'r llwybr er dibenion hamdden. Mae tystion wedi nodi nad yw eu defnydd yn cynnwys mynd â phlant i wersi nofio ac ymarferion pêl-droed yn unig gan fod sawl tyst hefyd yn nodi bod eu defnydd er dibenion hamdden (er enghraifft, defnyddwyr 3, 34, 37, 47, 50,176).

23.4 Dim ond defnyddiwr rhif 124 sy'n sôn am ganiatâd oherwydd ei fod yn nodi ei fod wedi derbyn caniatâd gan yr ysgol i gerdded ar y llwybr a hawlir er dibenion hamdden. Cyn y perchnogion presennol, mae sawl defnyddiwr yn nodi bod awyrgylch yr ysgol yn groesawgar; fodd bynnag, nid yw'r gweddill yn sôn eu bod wedi derbyn caniatâd. Pan holwyd Gwern ap Rhisiart (cyn-bennaeth rhwng 2012 -2013) am bobl yn cerdded heibio, nododd ei ymateb fod pobl yn cerdded heibio o dro i dro ac na chodwyd unrhyw broblemau penodol o hynny. Mae Mr Rhisiart hefyd yn nodi ei fod dan yr argraff fod gan bobl yr hawl i wneud hynny.

## 23. Ymgynghoriad

23.1 Cynhaliwyd ymgynghoriadau gyda grwpiau defnyddwyr ac ymgymerwyr statudol yn unol â nodiadau Canllawiau Ymarfer y Pwyllgor Adolygu Hawliau Tramwy. Ystyriwyd y wybodaeth a gasglwyd o'r broses hon isod:-

| YMGYNGHORAI | YMATEB |
|---|---|
| RAMBLERS ASSOCIATION | Dim ymateb |
| CYMDEITHAS MANNAU AGORED | Dim ymateb |
| THE BRITISH HORSE SOCIETY | Dim ymateb |
| MAGGI BARRY, YSGRIFENNYDD RAMBLERS COUNTY FOOTPATH (ARFON/DWYFOR) | Dim ymateb |
| THE BRITISH HORSE SOCIETY | Dim ymateb |
| WELSH TRAIL RIDERS FELLOWSHIP | Dim ymateb |
| AUTO CYCLE UNION | Dim ymateb |
| BRITISH DRIVING SOCIETY | Dim ymateb |
| CYCLING UK | Dim ymateb |
| POWER SYSTEMS | Dim ymateb |
| WELSH WATER | Dim gwrthwynebiad |
| BT NOTICE HANDLING CENTRE | Dim ymateb |
| WALES AND WEST UTILITIES | Dim gwrthwynebiad |
| CYFOETH NATURIOL CYMRU | Dim ymateb |
| YMDDIRIEDOLAETH CILFFYRDD A LLWYBRAU CEFFYL | Dim ymateb |
| Y CYNGHORYDD MENNA BAINES (ANFONWYD COPI AT YR YMGEISYDD). | Dim ymateb |
| ELWYN JONES, CLERC CYNGOR CYMUNED PENTIR (ANFONWYD COPI AT YR YMGEISYDD) | Dim ymateb |

## 24. Dyddiad Codi Cwestiwn

24.1 Er mwyn cyflwyno achos o dan Adran 31 o Ddeddf Priffyrdd 1980, mae angen sefydlu dyddiad pan gafodd hawl y cyhoedd i ddefnyddio'r llwybr ei gwestiynu.

24.2 Mae 'cwestiwn' yn codi pan fydd o leiaf rhai o'r defnyddwyr yn cael gwybod bod eu hawl i ddefnyddio ffordd fel priffordd wedi'i herio.

24.3 Mae swyddogion wedi ystyried a allai'r hysbysiadau a grybwyllir yn y Datganiad Swyddogol 1951 fod wedi bod yn gyfystyr â chwestiwn. Fodd bynnag, nid yw'n glir a oedd y rhain yn ymwneud â llwybr y cais. Felly, mae amheuaeth ynghylch a ellid dibynnu ar yr hysbysiadau hyn fel cwestiwn.

24.5 Mae honiadau o heriau amrywiol gan staff yr ysgol; fodd bynnag, nid oes digon o dystiolaeth i gefnogi unrhyw fath gam(au) gweithredu y gellid eu disgrifio fel rhai sy'n cwestiynu'r hawl i ddefnyddio'r llwybr. Mae swyddogion hefyd wedi ystyried yr arwyddion amrywiol a godwyd ar eiddo Ysgol Treborth cyn i'r eiddo gael ei werthu ym mis Gorffennaf 2014. Fodd bynnag, ystyrir nad oedd yr un o'r rhain wedi cael yr effaith o gwestiynu hawl y cyhoedd i ddefnyddio'r llwybr honedig.

24.6 Yn yr un modd, mae'r swyddogion hefyd wedi ystyried yr arwyddion a'r rhwystrau amrywiol ar eiddo'r Brifysgol ac unwaith eto, nid ydynt yn ystyried bod y rhain yn gyfystyr â chodi cwestiwn.

24.7 Gan droi nawr at y cyfnod pan brynodd Mr a Mrs Margetson y Neuadd, mae Mr a Margetson yn dadlau eu bod wedi dechrau herio aelodau'r cyhoedd mor gynnar â 2014. Ailadroddir hyn yng ngwrthwynebiad Mr James Margetson. Dadleuir bod giât glo wedi'i gosod ar draws y llwybr honedig ym mis Gorffennaf 2014. Honnir bod ffens Heras wedi'i gosod wrth ochr y giât i atal mynediad i gerddwyr. Fodd bynnag, ni all yr un o'r defnyddwyr gofio giât glo ar yr adeg benodol honno. Mae honiadau hefyd bod lonciwr wedi'i atal un bore Sul yn ystod misoedd cynnar perchnogaeth Mr a Mrs Margetson o'r Neuadd.

24.8 Mae'n ymddangos yn debygol bod yr heriau wedi cyrraedd lefel benodol erbyn dechrau 2015 ac roedd hyn yn golygu bod rhai trigolion wedi cysylltu â'r Cyngor Cymuned i godi eu pryderon. Mae'r e-bost a dderbyniwyd gan Mr Dilwyn Pritchard, Clerc Dros Dro Cyngor Cymuned Pentir (dyddiedig 22/03/2015) yn cyfeirio at drigolion ardal Treborth yn cael eu hatal rhag cerdded llwybr yr oeddent wedi'i ddefnyddio ers blynyddoedd. Rhoddodd Mr Pritchard eglurhad pellach ynghylch yr e-bost yn ystod sgwrs gyda'r Cyngor ym mis Chwefror 2025. Mewn cyfweliad, eglurodd Mr Pritchard bod y trigolion lleol wedi cysylltu â'r Cyngor Cymuned gyda phroblemau o ran cerdded heibio Neuadd Treborth oherwydd bod perchnogion newydd y Neuadd wedi atal trigolion wrth iddynt gerdded heibio. Mae datganiad heb ei lofnodi gan Mr Pritchard yn seiliedig ar y cyfweliad hwn ar gael yn atodiad 12.

24.9 Ystyrir bod y camau a gymerwyd gan berchnogion newydd Neuadd Treborth i herio defnyddwyr ar lafar ychydig cyn mis Mawrth 2015 yn ddigonol i ddangos 'codi cwestiwn'.

24.10 Felly, mae'n ymddangos yn fwyaf tebygol mai'r dyddiad y codwyd cwestiwn ynghylch hawl y cyhoedd i ddefnyddio'r llwybr yw Mawrth 2015. O'r herwydd, cynigir mai'r cyfnod perthnasol o 20 mlynedd i'w ystyried yw Mawrth 1995 i Fawrth 2015.

24.11 Mae tystiolaeth defnydd ar gyfer y cyfnod penodol hwnnw yn Atodiad 20.

## 25. Casgliad

25.1 Mae'r dystiolaeth yn dangos, ar gydbwysedd tebygolrwydd, mae'r cyhoedd wedi defnyddio'r llwybr yn barhaus ac fel hawl rhwng y cyfnod perthnasol o 20 mlynedd (Mawrth 1995 – Mawrth 2015).

25.2 Nid oes digon o dystiolaeth bod unrhyw dirfeddiannwr wedi cymryd cam(au) a fyddai'n golygu diffyg bwriad i gyflwyno'r llwybr yn ystod y cyfnod Mawrth 1995 - Mawrth 2015.

25.3 O ystyried yr uchod, mae'n ofynnol i'r Cyngor wneud Gorchymyn Addasu Map Swyddogol.

## 26. Argymhelliad

26.1 Argymhellir y dylai'r Cyngor lunio Gorchymyn dan Adran 53(3)(c)(i), Deddf Bywyd Gwyllt a Chefn Gwlad 1981, i gofrestru’r llwybr A – B – C – D – E – F, fel llwybr troed cyhoeddus ar y Map a'r Datganiad Swyddogol, fel y gwelir yn Atodiad 1.

26.2 Mae Adran 31 yn ei gwneud yn ofynnol i'r Cyngor gydbwyso 20 mlynedd o ddefnydd 'fel hawl' yn erbyn gweithred(au) y tirfeddiannwr(wyr). Rhaid cofio, yn yr achos penodol hwn, mai'r Cyngor ei hun oedd tirfeddiannwr am y mwyafrif helaeth o'r cyfnod perthnasol o 20 mlynedd. Mae'r swyddogion yn credu bod hyn yn creu gwrthdaro. Pe bai Gorchymyn yn cael ei wneud, mae'r swyddogion yn ystyried na fyddai'n briodol i'r Cyngor gefnogi a hyrwyddo Gorchymyn o'r fath pe bai gwrthwynebiad i'r Gorchymyn. Os gwneir y Gorchymyn a derbynnir gwrthwynebiadau, bydd y mater yn cael ei gyfeirio at Lywodraeth Cymru i'w benderfynu. O dan yr amgylchiadau, bydd y Gorchymyn yn cael ei bennu drwy gynrychiolaeth ysgrifenedig, gwrandawiad neu Ymchwiliad Cyhoeddus. Os felly, ystyrir y dylai'r Cyngor gymryd safbwynt **niwtral**. Ymhellach i hyn, ystyrir mai'r ymgeisydd a'r gwrthwynebydd ddylai fod yn gyfrifol am gyflwyno'r achos o blaid ac yn erbyn unrhyw orchymyn.

## Rhestr Atodiad

1. Cynllun Cais
2. Crynodeb o Dystiolaeth Defnyddwyr
3. Datganiadau defnyddwyr wedi'u diweddaru
4. Defnyddwyr o Pwyntiau E i F
5. Llythyrau cefnogi
6. Ffotograffau Cefnogol
7. Crynodeb o Ymateb Tirfeddiannwr
8. Mr James Margetson - 12.01.24 – Datganiad o Wrthwynebiadau
9. Mr a Mrs Margetson - Tystiolaeth Adroddiad a Datganiad o Wrthwynebiadau
   9a. M & Margetson – Atodiadau Adroddiad
10. Mr James Margetson - Adroddiad 31 Mawrth 2025
    10a. James Margetson – Atodiadau Adroddiad
11. Mr a Mrs Margetson - Llythyr Ymateb
12. E-bost gan Dilwyn Pritchard – Clerc Dros Dro ar gyfer Cyngor Cymuned Pentir
13. Detholiad o Adroddiad Ymateb Mr a Mrs Margetsons - Cofnod Arwyddion
14. Datganiad Swyddogol Llwybr Troed rhif 12 yng Nghymuned Pentir
15. Mapiau AO – Lleoliadau Giatiau
16. Rhys Gwyn Roberts - Swyddog Prosiectau Llwybr yr Arfordir - Datganiad
17. John Grisdale- Prifathro - Llythyr 1999

17a. Datganiad Trystan Williams

18. Rhwystr Melyn ym Mhont y Rheilffordd
19. Datganiad A Griffiths
20. Llinell Amser Defnydd Treborth